

Pwyllgor Diwylliant - CC-1-02(p.6)

Dyddiad: 9 Ionawr 2002

Amser: 9.00am -12.30pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol

Ar gyfer Adolygiad yr Iaith Gymraeg gan Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol.

Canolfan Mercator

Adran Astudiaethau Theatr Ffilm a Theledu

Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

RHAN I: CEFNDIR

Sefydlwyd cynllun Mercator yn 1987 yn sgil pasio Adroddiadau Arfe a Kuijpers gan Senedd Ewrop oedd yn argymhell y dylid gweithredu cynlluniau gyda golwg ar ieithoedd lleiafrifol neu ranbarthol yn enwedig ym meysydd helaeth addysg, y cyfryngau a gweinyddiaeth leol a rhanbarthol. Mae tair canolfan yn rhedeg Mercator ar ran y Comisiwn, sef CIEMEN yn Barcelona, Fryske Akademy yn Fryslan (yr Iseldiroedd) a Phrifysgol Cymru Aberystwyth. Erbyn heddiw mae Mercator yn rhan o raglen sefydlog ar lefel Ewropeaidd i hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol.

Maes arbenigedd Canolfan Mercator ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth yw ieithoedd lleiafrifol yr Undeb Ewropeaidd gyda phwyslais penodol ar y cyfryngau a'r wasg, llenyddiaeth a chyfieithu, y cyfryngau newydd a thechnoleg.

Prif Brosiectau ac Adroddiadau:

- Rhwydwaith Mercator (Comisiwn Ewropeaidd) ers 1987
- Llenyddiaeth Cymru Dramor (Cyngor Celfyddydau Cymru) ers 1998
- Rhwydwaith Mosaic i gyhoeddwyr llyfrau (Comisiwn Ewropeaidd) ers 1999
- Adroddiad i STOA (Scientific and Technological Options Assessment) ar gyfer Senedd Ewrop ar "Linguistic Diversity and the Internet: Assessment of the Contribution of Machine Translation" sydd i'w gael ar y We <http://www.europarl.eu.int/stoa/publi/99-12->

Rhai Cynadleddau a Seminarau a drefnwyd gennym:

- Ailhyfforddi athrawon i'w galluogi i dysgu trwy gyfrwng Basgeg, seminar undydd, Aberystwyth 1991
- Newyddiaduraeth a'r Wasg mewn Ieithoedd Llai, cynhadledd ryngwladol, Abertawe a Llambod 1995
- Cynhadledd Ryngwladol Mosaic yn Aberystwyth 1998
Cwrs Haf i Newyddiadurwyr Ifainc o Ewrop, Aberystwyth 1999
- Cynhadledd Ryngwladol ar Gyfieithu Clyweledol, Aberystwyth 2000
- Llenyddiaeth ar draws Ffiniau, ym Mhrag, 2001

Rhwydweithio

Mae llawer o'r gwaith yn deillio o rwydweithiau o arbenigwyr ar draws Ewrop, sydd yn ein galluogi i fewnforio ac allforio arbenigedd ac arfer gorau wrth ymwneud â ieithoedd llai yn Ewrop.

Perthynas â Biwro Ewropeaidd yr Ieithoedd Llai a Siarter Cyngor Ewrop

Mae staff Canolfan Mercator hefyd wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau Biwro Ewropeaidd yr Ieithoedd Llai ac wedi gwasanaethu fel Cadeiryddion ac Ysgrifenyddion ar Bwyllgor Cymru a Phwyllgor y Deyrnas Gyfunol sydd gan y corff hwnnw. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn gyfarwydd iawn gyda Siarter Cyngor Ewrop ar gyfer Ieithoedd Lleiafrifol a Rhanbarthol. Fel gwyr aelodau'r Pwyllgor hwn, mae'r Deyrnas Gyfunol wedi llofnodi a chadarnhau'r Siarter hon bellach ac fe gyfrannodd y Cynulliad Cenedlaethol i'r broses honno.

Ein bwriad felly yn y tudalennau sydd i ddilyn ac yn ein cyflwyniad ym mis Ionawr yw ceisio cyfrannu o'n profiad a'n gwybodaeth wrth gymharu gwahanol sefyllfaoedd dwyieithog ar draws Ewrop dros yr ugain mlynedd diwethaf yn benodol

RHAN II: CYFFREDINOL

Pan ddaeth Cynllun Mercator i fodolaeth yn 1987 yr oedd modd dweud fod y Gymraeg yn y rheng flaen ymhlith Ieithoedd Lleiafrifol y Gymuned Ewropeaidd o ran y ddarpariaeth mewn nifer o feysydd, ac yn arbennig yn achos addysg ddwyieithog, a'r cyfryngau ar ôl sefydlu S4C. Er nad oedd y Gymraeg mewn gweinyddiaeth cyhoeddus mor ddatblygedig, yr oedd modd dangos enghraifft blaengar o weinyddiaeth ddwyieithog yn achos hen Gyngor Sir Gwynedd.

Ers y cyfnod hwnnw gwelwyd lledaenu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector cyhoeddus ac i ryw raddau yn y sector breifat, ac y mae hynny'n ddyledus i raddau helaeth i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a grwpiau pwysedd. Mae swyddogaeth pwysig i'r Bwrdd ond yn naturiol mae'n gorfod gweithredu ar lefel dechnegol o fewn yr hyn sydd yn wleidyddol dderbyniol ar unrhyw adeg. Enillwyd llawer o'r tir yn y saithdegau a'r wythdegau cynnar drwy weithgarwch grwpiau pwysu – rhieni ac athrawon a'r mudiadau protest – a rhai cynghorau lleol megis yr hen Forgannwg yn arloesi gydag ysgolion dwyieithog. Roedd y patrwm tameidiog hwn yn anorfod pan oedd hi'n anodd gosod y Gymraeg ar yr agenda wleidyddol yn Llundain.

Ond gwelir erbyn hyn hefyd gwendidau gwneud penderfyniadau a chonsesiynau *ad hoc*. Er enghraifft, gwnaethpwyd y Gymraeg yn bwnc gorfodol mewn ysgolion heb baratoi cyrsiau mewn swydd digonol ar gyfer athrawon. Mae hyn yn cymharu'n anffafriol iawn â'r ddarpariaeth yng Ngwlad y Basg. Ychydig iawn o ymchwil cymdeithaseg iaith a wneir yng Nghymru fel cefndir i bolisi a chymharu â Catalunya neu Gwlad y Basg- 'does yr un adran Cymdeithaseg iaith mewn gwlad sydd yn labordy naturiol ar gyfer y gwaith, dim ond ambell unigolyn yma ac acw yn gwneud gwaith. Ac y mae gwagle yn y maes cyfreithiol -'does neb yn siwr beth yn union yw hawliau'r siaradwyr Cymraeg tu allan i faes cyfyngedig y llysoedd.

Canlyniad hyn i gyd yw fod rhai ieithoedd lleiafrifol Ewropeaidd wedi symud yn reit bell o flaen Cymru erbyn hyn, a bod eraill yn brysur dal i fyny, tra'n bod ni â thueddiad hunanfodlon ar y llwyfan rhyngwladol i ganmol ein hunain oherwydd y datblygiadau cynharach o blaid y Gymraeg.

Gyda dyfodiad y Cynulliad y mae gobaith datblygu polisi cynhwysfawr fydd yn symud ymlaen o gam i gam, ac yn y cyd-destun hwnnw 'rydym yn sicr yn croesawu'r arolwg presennol. Yn ein barn ni, dylai'r flaenoriaeth i gwestiynau ieithyddol fod yn uwch nac a fu hyd yma, dylai fod monitro ac adolygu polisi yn barhaol, a dylid edrych ar y defnydd a'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg ymhob maes o fywyd.

Ar drothwy sefydlu'r Cynulliad, roeddem wedi dadlau o blaid pwyllgor llorweddol yn ymwneud â'r Gymraeg. Yn ein tyb ni mae peryglon o neilltuo'r iaith i feysydd addysg a diwylliant. Nid y lleiaf o'r peryglon hyn yw gweld yr iaith bob amser fel cost yn hytrach na fel cyfle economaidd. Fwy nac unwaith wrth chwilio am arian cyfatebol yng Nghymru ar gyfer prosiectau ieithyddol Ewropeaidd oedd â dimensiwn economaidd iddynt, cawsom ein cyfeirio at adnoddau prin Bwrdd yr Iaith. Mawr obeithiwn na fydd y pwyllgor hwn yn cyfyngu ei argymhellion i feysydd addysg a diwylliant.

Ym maes y Celfyddydau penderfynodd y Gweinidog sefydlu Cymru'r Creu, sef fforwm ehangach o lawer na Chyngor y Celfyddydau, i dynnu gweithgareddau gwahanol gyrff at ei gilydd ac arwain nhw i'r un cyfeiriad. Mae'r iaith Gymraeg yn cyffwrdd ar feysydd ehangach

fyth, a chredwn fod angen - ochr yn ochr â Bwrdd yr Iaith Gymraeg - corff ehangach o lawer dan gadeiryddiaeth barhaol Gweinidog, ar batrwm Cymru'r Creu. Cymeradwywn batrwm Pwyllgor Ymgynghorol yr Iaith Basgeg a'r adroddiad a fabwysiadwyd ganddynt yn 1998, sydd ar gael hefyd yn Saesneg: *General Plan for promoting Basque Language Use*. Gweler fel atodiad tudalennau cynnwys yr adroddiad hwnnw. Nodwn hefyd profiad Llywodraeth Gwlad y Basg o hybu'r iaith yn fewnol yn y gwasanaeth suful. Ochr yn ochr â gwasanaeth cyfieithu a chynnig cyrsiau iaith ceir cyfundrefn o fentoriaid i helpu dysgwyr o weision suful – ynghyd a siaradwyr brodorol llai hyderus – i groesi'r bont a chynhyrchu dogfennau a llythyrau gwreiddiol mewn Basgeg.

Byddai cynrychiolaeth Cymru ar lefel wleidyddol mewn cynhadleddau rhyngwladol a rhwydweithiau megis "Partnership for Diversity" yn fodd i gyfnewid profiad, creu partneriaethau, a thynnu Cymru i mewn i brif ffrwd syniadaeth Ewropeaidd am ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol. Mae aelodau seneddol Ewropeaidd Cymreig megis Eluned Morgan ac Eirug Wyn wedi gwneud gwaith gwerthfawr iawn dros y Siartr Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol a hefyd y Siartr Hawliau Sylfaenol, ond ychydig yng Nghymru sy'n deall yr hyn sy'n digwydd ar lefel Ewropeaidd, yn rhannol oherwydd agwedd y Wasg ym Mhrydain tuag at Ewrop, ond hefyd oherwydd y gymysgedd sydd ym Mhrydain - a bron y dywedwn ym Mhrydain yn unig - rhwng ieithoedd rhanbarthol/leiafrifol a ieithoedd mewnudol. Mae gofynion a disgwyliadau y naill a'r llall yn wahanol ac y mae angen diwallu'r naill a'r llall. Derbyniwyd y gwahaniaethau hyn gan lywodraeth Prydain wrth arwyddo a chadarnhau Siartr Cyngor Ewrop ar gyfer Ieithoedd Lleiafrifol a Rhanbarthol, ond yng Nghymru yn rhy aml fe gymysgir cwestiynau hil a chwestiynau iaith. Mae'n beryglus iawn yn gymdeithasol i beidio cael syniadaeth clir yn y maes hwn.

RHAN III: Y CYFRYNGAU

Fel i ni nodi uchod, gwnaethpwyd rhai camau breision drwy sefydlu S4C ac y mae hyd heddiw yn enghraifft o ddarpariaeth gymharol dda ym maes teledu. Gellir dadlau fod y datblygiad ym maes radio yn cymharu'n llai llewyrchus â'r hyn sydd wedi digwydd mewn ieithoedd eraill. Ym maes y wasg brintiedeig roedd sefydlu *Go/wg* ym 1988 yn gam pwysig ond eto mae diflaniad *Y Fanner* yn golygu nad yw hyn yn cynrychioli cynnydd yn y lefel o ddarpariaeth. Mae un bwlch amlwg hefyd, sef nad oes papur dyddiol yn Gymraeg fel sydd yn bodoli mewn sawl iaith leiafrifol arall.

1. Darlledu.

Yr ydym yn ymwybodol nad oes cyfrifoldeb gan y Cynulliad ar hyn o bryd ym maes darlledu. Serch hynny, teimlwn ei bod yn briodol inni gynnwys y maes yn ein sylwadau gan fod y Cynulliad yn gallu mynegi barn arno.

Ar adeg lle mae posibiliadau digidol yn caniatáu amryfalu a chael darpariaeth ar fwy nag un sianel, tybed a oes gormod o gyfyngiadau ariannol a deddfwriaethol ar S4C sydd yn rhwystro'r Gymraeg rhag manteisio ar rai o brif nodweddion teledu digidol, sef dewis i'r gwyliwr a sianeli pwrpasol. Ar hyn o bryd, rhaid i S4C digidol ddangos pob rhaglen Gymraeg a ddangosir ar S4C analog yn gydamserol, felly nid oes modd cael dwy raglen deledu yn Gymraeg fel bod dewis i'r gwyliwr. Mae'r rhai cryfaf ymhlith lleiafrifoedd eraill Ewrop erbyn hyn yn dechrau sefydlu sianeli mwy arbenigol; mae'r Catalaniaid eisoes wedi sefydlu sianel ddigidol i blant sy'n darlledu oriau lawer o raglenni adloniant, gwybodaeth ac addysg yn yr iaith frodorol.

O edrych ar rai sefyllfaoedd eraill, gwelir bod modd i sianeli gydweithio o fewn polisi cynllunio iaith ehangach. Yng Ngwlad y Basg, er enghraifft mae dwy sianel o fewn yr un gorfforaeth yn gweithredu mewn ffordd gyd-drefnol yn unol â startegaeth iaith y llywodraeth. Gellid gwneud rhai newidiadau o safbwynt hyn yng Nghymru, er enghraifft, gallai rhaglenni dysgu'r iaith leiafrifol fod ar sianel heblaw sianel yr iaith leiafrifol fel sy'n digwydd gyda rhaglenni dysgu Cymraeg ar y radio yng Nghymru.

O safbwynt radio, rydym o'r farn nad yw'n foddhaol bod un gwasanaeth cenedlaethol yn ceisio bod yn bopeth i bawb ac mai'r ateb yw rhoi mwy o donfeddi ar gael. Mae lleiafrifoedd eraill yn Ewrop sy'n llwyddo i gynnal gorsafoedd i grwpiau targed penodol; er enghraifft mae gorsafoedd ieuenctid yn darlledu yng Ngwlad y Basg ac yn y Ffindir i'r siaradwyr Swedeg. Hefyd, mae profiad ieithoedd eraill yn peri inni sylwi ar y diffyg darpariaeth gan orsafoedd annibynnol yn Gymraeg, lle mae llawer o leiafrifoedd llawer gwanach wedi cymryd y llwybr hwnnw yn gyntaf yn absenoldeb darpariaeth arall. Mae'n debyg mai rhan o'r rheswm dros hyn yw'r diffyg cefnogaeth ariannol gyhoeddus sydd ar gael i orsafoedd radio cymunedol yn y wlad hon. Er y gallant cael cyfalaf cychwynnol o ffynonellau cyhoeddus, nid yw'n gyfreithiol iddynt dderbyn cynhaliaeth barhaol o ffynonellau felly. Hyn sy'n cyfrif am y gwahaniaeth mawr rhwng Cymru a Llydaw lle mae tua 15 o radios lleol a rhanbarthol yn darlledu o leiaf ryw faint o Lydaweg, ar ben gwasanaeth rhanbarthol y wladwriaeth, fel y dengys y tabl isod. Cofiw'n hefyd fod Llydaweg y tu ol i Gymru mewn llawer o'r meysydd sydd yn bwysig i iaith fyw.

Gorsafoedd radio yn defnyddio Llydaweg

Enw'r Orsaf	Pryd y'i sefydlwyd	Nifer yr Oriau yn Llydaweg bob wythnos
Alter Nantes	1986	25
Arvorig FM	1996	3
Canal B	1991	1.1
Cob FM	1987	2
Radio An Aodoù / Radio Rivages	1992	6

Radio Breizh Izel / Radio France Bretagne Ouest (gorsaf y wladwriaeth)	1981	7
Radio Bro Gwened	1983	20
Radio Clarté / Radio Sklerijenn	1992	1
Radio France Armorique	1985	2
Radio Fréquence Ouest	1991	3
Radio Glaz / Radio Émeraude	1983	7.5
Radio Kreiz breizh	1983	21
Radio Mutine	1984	2.25
Radio Pays	1980	7.25
Radio Bro-Gerne	1996	3

2. Y Wasg

Mae'r wasg wythnosol Gymraeg yn aros yn ei hunfan ers rhai degawdau bellach o safbwynt nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael. Ar yr ochr gadarnhaol mae ffenomenon unigryw i Gymru – sef y papurau bro – yn dal i werthu yn niferus. Y diffyg mwyaf amlwg lle mae'r Gymraeg ymhell ar ei hôl hi yw nad oes papur newydd dyddiol. Mae hwn yn faes arbennig i ni ar hyn o'r bryd gan ein bod wedi cael cytundeb ymchwil i astudio'r maes. Un o'r agweddau ar hyn yr ydym yn eu harchwilio yw pa ffactorau sy'n caniatáu i rai lleiafrifoedd llawer llai na'r siaradwyr Cymraeg gynnal gwasg lawer mwy toreithiog. Er enghraifft, mae siaradwyr Swedeg y Ffindir, llai na 300,000 ohonynt, yn llwyddo i gynnal xx o bapurau dyddiol. Yn wir, mae dros 20 o bapurau dyddiol yn perthyn i leiafrifoedd ieithyddol drwy'r Undeb Ewropeaidd. Rhan o hyn yw arferion darllen gwahanol ond mae ffactorau eraill, sy'n llesteirio datblygiad y gellid mynd i'r afael â hwynt, megis, er enghraifft, yr adeiladwaith dosbarthu. Mae Mercator yn gobeithio y gall, efallai, roi cyflwyniad arall i'r pwyllgor hwn ar yr ymchwil pan fydd hi wedi datblygu ymhellach.

3. Cyfryngau Newydd

Mae Mercator wedi paratoi adroddiad i Senedd Ewrop ar Amrywiaeth Ieithyddol ar y Rhynggrwyd a Swyddogaeth Cyfieithu gan Beiriant y gellir ei weld yn http://www.europarl.eu.int/stoa/publi/99-12-01/default_en.htm#top.

Mae'r fantais o symud yn gyntaf gyda datblygiadau yn y maes hwn yn un bwysig. Hyd yn hyn nid oes hyd yn oed feddalwedd brosesu geiriau yn y Gymraeg. Bydd gweithio i ddyfeisio a lleoleiddio meddalwedd yn Gymraeg a datblygu technolegau iaith megis systemau cyfieithu

peiriant hefyd yn magu sylfaen sgiliau a'r posibiliad o gael gwneud gwaith tebyg i bobl eraill y tu allan i'r byd Cymraeg hefyd. Gall hwn fod yn *niche* i Gymru. Fel ym maes teledu, mae derbyn gwasanaethau fel hyn o'r tu allan yn gyfystyr ag allforio swyddi. Eto, mae'n rhaid dewis y ffordd ymlaen yn ofalus a pheidio ag efelychu camgymeriadau sydd wedi cael eu gwneud mewn llefydd eraill; er enghraifft talodd llywodraeth Gwlad y Basg yn ddrud i gyfieithu rhai pecynnau Microsoft i'r Fasgeg a oedd wedi dyddio ymhen byr o dro.

Byddai creu corpws digidol o'r Gymraeg yn sylfaen ar gyfer datblygu un math o system gyfieithu peiriannol. Mae gwaith beunyddiol cyrff fel y Cynulliad ei hun yn darparu deunydd a allai fwydo corpws o'r fath.

Gall fod pwyllgor llywio i ddatblygu technoleg o'r math hwn yn Gymraeg yn syniad da. Er bod Bwrdd yr Iaith yn gweithio yn y maes, credwn mai da o beth fyddai i fforwm iaith fel yr un a awgrymwn weithredu ynddo hefyd.

Papur Dyddiol yn y Gymraeg

Ym maes y wasg a'r cyfryngau, y bwlch mwyaf yng Nghymru yw absenoldeb Papur Dyddiol yn y Gymraeg. Gan ein bod wrthi'n awr yn ymchwilio i ddichonoldeb y fath bapur ac yn gobeithio gwneud cyflwyniad i'r Cynulliad nes ymlaen, rydym yn cyfyngu ein hunain yn fan hyn i rai sylwadau cyffredinol.

Yn oes teledu, radio a'r rhyngwrwd, mae papurau newydd yn dal yn rhan bwysig o fframwaith democratiaeth, ac y mae unrhyw ychwanegiad at ystod y Wasg yng Nghymru yn gyfraniad gwerthfawr i'r broses ddemocrataidd. Yng nghyd-destun Prydain gall creu papur dyddiol ar gyfer poblogaeth o lai na hanner miliwn ymddangos yn anodd os nad yn amhosibl, ond mewn cyd-destun lleiafrifol Ewropeaidd mae'n amlwg fod y Gymraeg yn iaith na ddylai fod heb bapur dyddiol o ystyried niferoedd y siaradwyr. Pwrpas ein ymchwil yw ymgynghori yn eang â'r gynulleidfa Gymraeg, dod o hyd i'r dechnoleg, y modelau busnes a'r peirianwaith dosbarthu sydd yn addas ar gyfer y farchnad Gymraeg, a dangos sut y byddai modd sefydlu a chynnal y fath bapur yng Nghymru.

Grwp Lleiafrifol	Nifer y siaradwyr	Papurau dyddiol
Swedeg yn y Ffindir	300,000	10
Catalaneg	7,500,000	5

Eidaleg yn Slofenia a Croatia	13,500	1
Almaeneg yn y Süd-Tirol yn yr Eidal	290,000	2
Almaeneg yn Denmarc	20,000	1
Almaeneg yng ngwlad Belg	100,000	1
Romansh yn y Swisdir	60,000	1
Sorbeg yn yr Almaen	45,000	1
Slofeneg yn yr Eidal	100,000	1
Galisieg yn Sbaen	2,400.000	1
Daneg yn yr Almaen	50,000	1
Basgeg yn Sbaen	560,000	1
Llydaweg	300,000-600,000 ??	0
Frisieg yn yr Iseldiroedd	350,000	0
Cymraeg	510,000	0